

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Fercher, Rhagfyr 11:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Rhagfyr 15:** Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10.00 o'r gloch ac oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Mawrth, Rhagfyr 10:** Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

**Nos Fawrth, Rhagfyr 10:** Cyfarfod Carolau Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Nos Fercher, Rhagfyr 11:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Rhagfyr 15:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Rhagfyr 15:** Ni fydd oedfa.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Rhagfyr 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

### Rhagfyr 15

10.00 a.m. - Gwasanaeth Nadolig y Plant  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Rhagfyr 22

3.00 p.m. - Gwasanaeth Undebol Naw Llith a Charol yn Eglwys Llandinorwig ar gyfer eglwyhsi'r pentref

## Cyfraniadau Ariannol 2013

Bydd llyfrau ariannol **Capel Coch** yn cau nos Sul, Rhagfyr 29.

Caiff pob cyfraniad a ddaw i law ar ôl hynny ei roi at gasgliadau 2014.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Gofynnir yn garedig i aelodau **Ebeneser, Cefnywaun, Rehoboth a Nant Padarn** hefyd hwyluso gwaith y trysoryddion trwy anfon eu cyfraniadau am 2013 erbyn diwedd y flwyddyn.

## Y mis nesaf - Llanberis

### Rhagfyr 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Rhagfyr 15

10.00 a.m. - Mr John H Hughes  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

### Rhagfyr 22

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa Nadolig Plant yr Ysgol Sul + Parti Nadolig y plant



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 570 - Dydd Sul, 08 Rhagfyr 2013

## Mandela

Mae pobl ym mhob cwr o'r byd yn sôn am Nelson Mandela ers iddo farw yn ei gartref yn Ne Affrica nos Iau. Ac nid yw hynny'n syndod o gwbl o gofio mawredd y dyn. Mae rhai yn rhy ifanc i'w gofio'n cerdded o gaethiwed ei gell wedi 27 o flynyddoedd dan glo. Mae rhai hyd yn oed yn rhy ifanc i'w gofio yn Arlywydd De Affrica rhwng 1994 a 1999. Ac eto, mae pobl o bob oed yn siarad amdano.

Buan iawn yr aeth y bobl a laddwyd yn Glasgow ychydig dros wythnos yn ôl pan syrthiodd yr hofrennydd trwy do'r dafarn yn angof. Ond yr un yw colled teuluoedd Glasgow â theulu Mandela. Boed i oleuni'r Efengyl lewyrchu ar deuluoedd galar ym mhobman heddiw.

Ers nos Iau, cafwyd teyrngedau cwbl haeddiannol i Mr Mandela, a fu farw yn 95 mlwydd oed; ac fe'n hatgoffwyd am y gwaith rhyfeddol a wnaeth. Mae'n bosibl bod llawer o'r hanes yn newydd i ni, er mor gyfarwydd fuom â gweld a chlywed amdano dros y blynyddoedd. Cafwyd hefyd atgofion personol gwleidyddion a gohebwy'r a phobl eraill am y troeon y bu iddynt gyfarfod ag ef. Soniodd John Simpson, un o ohebwy'r y BBC, am Mr Mandela'n croesawu plentyn ag anabledd dwys i'w gartref. Mab i un o ffrindiau Simpson oedd yr hogyn, ac eisteddodd Mandela gydag ef i siarad ag ef a'i fwydo.

Ond y sylw mwyaf cofiadwy i mi oedd eiddo Tony Davies, a fu'n byw yn Ne Affrica ers deugain mlynedd a mwy, ar

Radio Cymru. Dywedodd Mr Davies iddo wrthod gwahoddiad i gyfarfod â Nelson Mandela am ei fod yn teimlo'n annheilwng o'r fraint. Doedd o ddim wedi gwneud unrhyw beth, meddai, i'w gefnogi ar hyd blynyddoedd ei garchariad; ac roedd hyd yn oed yn cyfaddef mai ychydig iawn a wyddai amdano cyn iddo gael ei ryddhau a dod wedyn yn Arlywydd y wlad.

Roedd rhaid edmygu gonestrwydd a diffuantrwydd Mr Davies. Ac eto nid oedd angen iddo deimlo felly. Roedd Mandela wedi maddau hyd yn oed i'r bobl a fu'n ei ormesu, ac wedi cymodi â hwy. A'i esiampl ryfeddol i bawb yn Ne Affrica a sicraodd heddwch a chymod yn y wlad honno wedi i drefn annynol Apartheid ddod i ben.

Roedd Nelson Mandela ei hun yn pwysleisio nad oedd ef na Meseia na sant ond dyn cyffredin a weithredodd mewn amgylchiadau anghyffredin. Byddai gostyngeiddrwydd y dyn mawr wedi golygu y cawsai Tony Davies groeso cynnes ganddo er gwaethaf pob ymdeimlad o anneilyngdod. Ac yn hyn o beth, yr oedd Mandela yn debyg i'r Arglwydd Iesu. Gallwn deimlo'n anneilwng o ddod at Iesu. Mi ddylem deimlo felly mewn gwirionedd! Ond mae Iesu'n ein croesawu er gwaethaf hynny. Nid ydym yn deilwng ohono ef a'i aberth drosom, nac o'i faddeuant a'i gariad, ond mae'r Gwaredwr yn ein derbyn beth bynnag. Diolchwn am hynny, a chofiw'n nad oes raid i'r un ohonom oedi dod ato mewn ffydd.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli. Diolch yn fawr iawn iddo am ddod i arwain yr oedfa.

Byddaf fi'n arwain oedfa'r bore yn Llanberis a chynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Ac yna am 5.00 o'r gloch ceir oedfa MOLI ac estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â ni i addoli unwaith eto.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch (er nad yn y capel ond yn Dwyfor y buom yn cyfarfod yn ddiweddar, a diolchwn am y croeso cynnes yno).

## Cofion

## Apêl y Pilipinas Deiniolen

Diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad a dderbyniwyd at y casgliad a wnaed gan Gyngor Eglwys Deiniolen at Apêl Cymorth Cristnogol i gefnogi'r bobl yn Y Pilipinas (Phillipines) a ddiodeffodd oherwydd y teiphwn mawr a drawodd yr ynysoedd hynny.

Derbyniwyd £432.65. Diolch yn fawr i bawb yn y pentref a gyfrannodd at yr apêl hon yn lleol. Mae'n sicr fod llawer wedi cyfrannu at yr Apêl gyffredinol a wnaed gan Bwyllgor yr Argyfyngau Brys ar ran yr elusennau sy'n cydweithio mewn amgylchiadau fel hyn.

Os oes unrhyw un arall am gyfrannu mae croeso i chi wneud hynny o fewn y diwrnod neu ddaud nesaf cyn i'r arian gael ei anfon.

## Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn Capel Coch ddydd Mercher diwethaf, Rhagfyr 4 er budd Cronfa'r Capel.

Diolch yn fawr iawn i bawb a weithiodd yn galed i drefnu'r Ffair ac i bawb a roddodd y gwahanol nwyddau ar gyfer y byrddau gwerthu. Diolch hefyd wrth gwrs i bawb a ddaeth yno i wario ac i gefnogi'r ymdrech hon.

Erbyn diwedd y pawns cafwyd £854.32 at yr achos. Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth, ac yn arbennig i bawb a fu'n brysur yn paratoi'r cyfan ymlaen llaw ac a fu'n clirio ar derfyn y dydd.

## Cyfarfod Gweddi

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Efe yn Capel Coch nos Fercher diwethaf.

## Noson Garolau

Cynhelir Cyfarfod Nadolig Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 10. Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod i'r cyfarfod i ddathlu'r Nadolig gyda ni.

Bydd Parti Ffrindiau Bytholwyrdd yn cymryd rhan yn y cyfarfod hwn a fydd ar ffurf Llith a Charol. Bydd cyfle i'r gynulleidfa ymuno yn y carolau hefyd wrth gwrs.

## Dosbarth Beiblaidd

Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Rhagfyr 11. Byddwn yn mynd ymlaen efo'r gyfres sy'n edrych ar y bobl y sonir am eu ffydd ym mhennod 11 y Llythyr at yr Hebraid. Y tro hwn, byddwn yn trafod ffydd Isaac.

## Oedfa Nadolig Plant Deiniolen

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch fore Sul nesaf, Rhagfyr 15 yn Ebeneser. Bydd croeso cynnes i bawb i'r oedfa hon. Gobeithio'n fawr y bydd aelodau'r ddwy eglwys yn derbyn y gwahoddiad i uno gyda phlant yr Ysgol Sul i ddathlu'r Nadolig a'i ystyr cyfoethog.

## Naw Llith a Charol Llanberis

Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Sant Padarn am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 17.

Roedd y gwasanaeth hwn yn Capel Coch y llynedd ac yn Eglwys Sant Padarn ddwy flynedd yn ôl. Bydd yn gyfle i eglwysi'r pentref ddathlu'r Nadolig gyda'i gilydd. Gwneir casgliad at Gynllun Efe yn yr oedfa hon eleni eto.

Rhowch wybod i'r Gweinidog os ydych yn fodlon cymryd rhan yn yr oedfa trwy ddarllen un o'r lliθοedd.

## Naw Llith a Charol Deiniolen

Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Eglwys Llandinorwig am 3.00 o'r gloch, ddydd Sul, Rhagfyr 22 ac estynnir croeso cynnes i bawb i ddathlu Gŵyl y Geni gyda'n gilydd.

Bydd yn gyfle i'r eglwys yn Neiniolen ddod ynghyd eto i gydaddoli.

Ni fydd oedfa yn Neiniolen y noson honno gan mai'r gwasanaeth undebol hwn fydd ei hoedfa ni wrth gwrs.

Rhowch wybod i'r Gweinidog os ydych yn fodlon cymryd rhan yn yr oedfa trwy ddarllen un o'r lliθοedd

## CICDolig

Gobeithir trefnu gweithgaredd arbennig ar gyfer diwedd y tymor i hogiau CIC Llanberis ddydd Gwener, Rhagfyr 20, yn ystod y dydd o bosibl gan nad oes ysgol iddynt y diwrnod hwnnw.

## CICinio

Mae cyfarfod Cristnogol newydd wedi cychwyn yn Ysgol Brynrefail ar gyfer y disgyblion yn ystod yr awr ginio ers pythefnos ac mae croeso i unrhyw un o ddisgyblion yr Ysgol i fynd iddo.

Caiff CICinio ei gynnal amser cinio am 12.45 o'r gloch bob dydd Llun. Mae posteri yn yr ysgol yn dweud lle mae'n cael ei gynnal.

Ac er bod Andrew ac eraill yn mynd yno i'w helpu y bwriad yw mai'r disgyblion eu hunain sy'n trefnu ac yn penderfynu beth sy'n digwydd yn y cyfarfodydd.